Adroddiad ar

Cylch Meithrin Y Groeslon
Neuadd Bentref
Groeslon
Caernarfon
LL54 2DG

Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2019

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Y Groeslon

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Y Groeslon |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Angharad Wiliams, Sian Llewelyn-Parry, Awen Hughes |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Angharad Williams |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 8 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:55 y.b. – 12:55 y.h. yn ystod tymor ysgol |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu "cynnig gweithredol" y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhag-weld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 12/07/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 12/05/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 14/05/2019 |

Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r lleoliad wedi cofrestru gyda'r Mudiad Meithrin ac yn cyfarfod o neuadd pentref y Groeslon. Mae bron pob un plentyn sy'n mynychu yn siarad Cymraeg fel iaith cyntaf.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella gweithdrefnau asesu i olrhain cynnydd pob plentyn

A2 Sicrhau bod cyfleoedd cyson ar gael i'r plant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

## Beth sy'n digwydd nesaf

Nid oes angen dilyniant ar y lleoliad oherwydd bod y barnau ar gyfer pob thema yn dda. Mae gan arweinwyr y capasiti i wneud gwelliannau angenrheidiol.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon, ac yn ymdopi’n dda wrth adael eu rhieni. Mae rhan fwyaf y plant yn gwneud penderfyniadau a dewis sut maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad yn effeithiol. Maent yn symud o gwmpas yr ystod eang o weithgareddau ac ardaloedd chwarae ar gael iddynt yn rhwydd. Mae hyn yn galluogi’r plant i ddilyn eu diddordebau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau strwythriedig yn eu hamser eu hunain yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y plant yn mynegi eu hunain, rhannu syniadau ac ateb cwestiynau syml yn hyderus. Maent yn gwybod y bydd eu barn yn cael ei barchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, roedd plant yn awyddus i ddangos adar a bywyd gwyllt i’r staff gan wybod y buasai’r staff yn rhannu eu diddordeb ac yn gwerthfawrogi beth oedd ganddynt i ddweud. Mae’r rhan fwyaf yn gyfarwydd gyda’r drefn ddyddiol ac mae ganddynt berthynas bositif gyda’r ymarferwyr, sy’n rhoi teimlad o sicrwydd iddynt. Mae bron pob plentyn yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, sy’n eu gwneud yn awyddus i rannu eu llwyddiannau, er enghraifft wrth ddangos eu gwaith celf i’r ymarferwyr.

Mae rhan fwyaf y plant wedi cychwyn gwneud ffrindiau. Maent yn rhyngweithio’n dda gyda’u cyfoedion ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda’i gilydd. Er enghraifft, maent yn cyd-weithio’n llwyddiannus i wneud lluniau o amgylch ei gilydd gyda phensil ar y rholyn papur mawr. Mae rhan fwyaf y plant yn hapus i rannu adnoddau gyda’u cyfoedion ac yn dysgu sgiliau cymdeithasol pwysig yn dda fel cymryd tro. Er enghraifft, wrth chwarae yn y cafn tywod, mae plant yn hapus i rannu’r bwcedi a’r rhawiau ac yn cymryd tro i osod tywod ar y castell dywod.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau’n dda wrth fynd i’r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol, er enghraifft wrth dorri llysiau i greu cawl i’r cawr. Mae bron pob plentyn yn chwilfrydig am y byd o’u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio eu dychymyg, er enghraifft wrth dyrchu yn y cerrig bach ac esgus bod yn adeiladwyr.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau yn annibynnol a dilyn eu diddordebau yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth lenwi potiau gyda dŵr a’u cario tu allan ac wrth arllwys eu paent eu hunain. Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob plentyn yn awyddus i wneud pethau drostynt ei hunain, er enghraifft, golchi dwylo, arllwys diod a didoli ffrwythau ar eu platiau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau o’u mannau cychwyn. Mae plant o wahanol alluoedd yn gwneud cynnydd da gyda’u medrau iaith a llythrennedd, rhifedd a’u medrau corfforol a chreadigol.

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llafar.  Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr ac ar ei gilydd amser cylch ac yn ystod gweithgareddau yn y gwahanol ardaloedd dysgu.  Maent yn siarad yn hyderus yn y Gymraeg, yn unol â'u hoed a'u gallu, gan fynegi eu teimladau a'u hoffter am wahanol rigymau yn dda gan awgrymu'r caneuon yr hoffen nhw eu canu.

Mae llawer o'r plant yn arddangos medrau darllen cynnar effeithiol.  Maent yn mwynhau gwrando ar straeon ac edrych ar lyfrau, yn troi tudalennau yn eu llyfrau yn gywir ac yn rhagfynegi camau nesaf y stori yn llwyddiannus.  Maent yn mwynhau gwrando ar a thrafod storiau fel Smot y Ci, gydag ymarferwyr.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio pinau ffelt, creonau a sialc yn effeithiol er mwyn creu marciau ysgrifennu cynnar yn annibynnol mewn gwahanol gyd destunau..  Mae gan lawer o blant reolaeth dda ar eu medrau mân wrth ddal offer arlunio ac ysgrifennu.  Maent yn cymryd cyfleoedd rheolaidd yn y gwahanol weithgareddau i gofnodi'n annibynnol, sydd yn datblygu eu hyder yn effeithiol.  Er enghraifft, maent yn creu marciau ar y byrddau du siap blodyn yn yr ardal tu allan.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd cadarn.  Maent yn cyfri gwrthrychau hyd at bump yn hyderus, er enghraifft wrth gyfri hadau yn yr ardal chwarae.  Mae llawer o blant mwy galluog yn cyfri i ddeg a hebio gyda chymorth ymarferwyr.  Mae llawer yn defnyddio geirfa fel 'llawn' a 'gwag' wrth drafod offer gwneud cawl yn y gegin fwd ac wrth chwarae gyda gwahanol gynhwysyddion yn y dŵr.

Mae llawer o blant yn dechrau defnyddio amrediad o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gynyddol hyderus trwy ddefnyddio cyfrifiadur llechen a dyfeisiadau electronig mewn tasgau o dan arweiniad oedolyn ac wrth chwarae'n annibynnol.  Fodd bynnag, nid yw'r medrau hyn wedi gwreiddio'n ddigon cadarn hyd yma.

Mae rhan fwyaf y plant yn datblygu medrau corfforol da trwy ddefnyddio amrediad cyfoethog o adnoddau fel beiciau a trawstiau cyd bwysedd.  Maent yn datblygu eu medrau creadigrol yn effeithiol iawn, er enghraift trwy greu blodau allan o glai gan eu haddurno gyda gwahanol fotymau.  Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio offer taro cerddorol yn hynod aeddfed gan addasu cyflymder a thraw yr offeryn yn unol â chyfarwyddiadau'r ymarferydd.  Er enghraifft, wrth chwarae'n gryf neu'n dawel wrth ganu 'Mr Hapus ydw i.'

Mae medrau datrys problemau'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'r effeithiol. Er enghraifft, mae rhan fwyaf y plant yn medru gosod offer fel trac ar gyfer tren bren yn ofalus gan addasu ei gyfeiriad yn ôl yr awydd, yn gosod gwahanol gerbydau ar y trac ac yn egluro'u cynlluniau.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Mae ymarferwyr wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, ac yn gyfarwydd gyda'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryder am blentyn. Roeddant hefyd yn gyfarwydd gyda'r gweithdrefnau cywir I'w ddilyn pe byddai honiadau yn erbyn un

o'r ymarferwyr neu'r person cofrestredig.  Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg ac yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol gan sicrhau bod rhiant yn arwyddo'r cofnodion hyn.  Lle nad oedd modd i'r rhieni arwyddo, er enghraifft, os oedd plentyn yn mynd syth o'r lleoliad i'r ysgol, roedd cofnod bod y rhieni wedi cael gwybod drwy alwad ffôn.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau er mwyn atal lledaenu haint.  Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo fel bo angen ac i ddilyn gweithdrefnau addas wrth drin bwyd.  Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus.  Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau ac yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol ar gael iddynt ddatblygu eu sgiliau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r holl ymarferwyr yn ffurfio perthnasau positif gyda'r plant.  Maent yn siarad gyda'r plant yn dyner ac yn eu trin gyda gofal a pharch.  Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol, er enghraifft, drwy ddefnyddio tedi i dawelu plant pan mae lefel y swn yn codi.  Maent yn defnyddio strategaethau defnyddiol i ddenu sylw plant at weithgareddau eraill os ydynt yn cael trafferthion rhannu neu gymryd tro ac yn rhoi esboniad clir pan nad ydy eu hymddygiad yn dderbyniol.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Maent yn gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol er mwyn sicrhau bod y plant yma'n derbyn y gefnogaeth maent ei angen. Mae gan y lleoliad weithdrefnau addas i gadw enghreifftiau o waith plant drwy greu 'Llyfr Trysor' ar gyfer pob plentyn i ddangos eu cynnydd.  Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn olrhain cynnydd yr holl blant sydd yn mynychu'r lleoliad er mwyn adnabod unrhyw anawsterau yn ddigon amserol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da**

Un o nodweddion cryf y lleoliad yw'r modd y mae'r ymarferwyr yn cyd weithio'n hapus ac effeithiol ac yn modelu ymddygiad cadarnhaol er lles y plant.  Mae perthynas agos a hynod gefnogol i'w gweld rhyngddynt.  Mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd hybu hyder a hunan ddelwedd y plant trwy gydol pob agwedd o waith y ddarpariaeth.

Mae'r ymarferwyr yn arddangos dealltwriaeth effeithiol o egwyddorion y cyfnod sylfaen.  Maent yn cynllunio amrediad symbylus o weithgareddau ac yn hwyluso'r dysgu trwy drafod a sbarduno meddwl a thrafodaeth gyda'r plant yn effeithiol.  Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu'r addysgu ar gyfer diddordebau, gallu a lefel hyder pob plentyn.  Maent yn canolbwyntio ar sicrhau fod hunan ddelwedd plant yn cael ei hybu trwy brofi llwyddiant, beth bynnag fo'r weithgaredd.  Maent yn hybu annibyniaeth ymysg plant yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau'r plant trwy gydol eu gweithgareddau.  Maent yn siarad yn aeddfed a hwyliog gyda'r plant, sydd yn hybu medrau llafar y plant yn gelfydd.  Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd ac effeithiol i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar yn ystod gweithgaredau  tu fewn ac yn yr ardaloedd tu allan. Maent yn cynllunio cyfleoedd

gwerthfawr i ddatblygu medrau rhifedd plant, er enghraifft wrth drafod, prynu a gwerthu'r hadau gwahanol yn y 'ganolfan arddio' yn yr ardal chwarae allan. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn sicrhau digon o gyfleoedd pwrpasol i ddablygu medrau TGCh y plant ar draws yr ardaloedd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol, er enghraifft wrth ddefnyddio trawst cyd-bwysedd ac wrth ddefnyddio beiciau'n gelfydd a hyderus. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau corfforol a chreadigrwydd y plant, er enghraifft wrth annog y plant i berfformio 'sioe' ddawns a chanu i'w ffrindiau.

Mae'r ymarferwyr yn hybu ymwybyddiaeth ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwyllianol y plant yn fwriadus, er enghraifft wrth ddysgu am yr ŵyl Diwali a chreu draig wrth drafod y flwyddyn newydd Tsieiniaidd. Maent yn hybu Cymreictod ac ymwybyddiaeth o draddodiadau Cymru'n llwyddiannus, er enghraifft trwy ymweliadau â'r gymuned leol a thrwy ganu hwiangerddi traddodiadol Cymreig.

Mae gan ymarferwyr weithdrefnau effeithiol ar gyfer asesu cynnydd y plant. Mae ganddynt wybodaeth drylwyr am gynnydd y plant ac maent yn addasu camau nesaf eu dysgu yn fedrus. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gymryd y cam nesaf yn eu dysgu wrth gyfri ymlaen at rifau mwy yn yr ardal tu allan ac yn eu canmol yn gyson am eu hymdrechion.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle er mwyn sicrhau bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu peryglon posib a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae ymarferwyr yn delio gyda'r rhain yn gyflym ac yn effeithiol.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, gyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael synnwyr o berthyn drwy arddangos esiamplau o waith y plant ar y waliau. Mae'r brif ystafell chwarae wedi ei threfnu i ardaloedd dysgu pwrpasol gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llyfrau ac adnoddau wedi eu gosod i gyd-fynd â thema'r tymor, sef 'Tyfu'. Mae'r ardal chwarae tu allan wedi cael ei ddatblygu i gynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol i blant chwarae a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, cegin fwd, tŷ chwarae sy'n cael ei newid i gyd fynd â'r themau, hambyrddau'n llawn o bridd a deunyddiau, ardal blannu ac ardal adeiladu gyda cerrig, rhawiau a berfa.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn y brif ystafell chwarae. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o ba bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau'n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da. Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau a deunyddiau naturiol er mwyn galluogi'r plant i arbrofi a darganfod, er enghraifft wrth

blannu blodau, wrth arbrofi gyda llysiau a pherlysiau, ac wrth greu modelau yn defnyddio deunyddiau wedi eu ailgylchu. Mae ystod o adnoddau ar gael er mwyn hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol, fel llyfrau, doliau a phosteri.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr yn rhannu'r un weledigaeth ar gyfer creu darpariaeth hapus a chartrefol ar gyfer y plant. Mae'r arweinydd a'r staff yn cyd weithio'n llwyddiannus er mwyn sicrhau fod plant y lleoliad yn datblygu hyd eithaf eu gallu ac yn datblygu'n unigolion cyflawn hyderus. Mae'r holl ymarferwyr yn ymroddgar ac yn gweithio'n gydwybodol er mwyn sicrhau amrediad eang a chyfoethog o brofiadau ar gyfer y plant.

Mae datganiad o bwrpas y lleoliad yn ddogfen gynhwysfawr sydd yn darparu strwythur effeithiol ar gyfer eu gwaith ac yn cynnwys gwybodaeth digonol am sut mae'r ddarpariaeth yn cael ei redeg.

Mae arweinwyr yn sicrhau fod ystod effeithiol o ymarferwyr gyda chymwysterau priodol ac amrediad o brofiad perthnasol ar gyfer y gwaith. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u harbenigeddau er lles a datblygiad y plant. Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer gwerthuso perfformiad ymarferwyr ac mae eu amcanion gwella yn cysylltu'n agos gyda blaenoriaethau gwella'r lleoliad ynghyd â'u anghenion datblygiad unigol. Mae arweinwyr yn sicrhau fod anghenion datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn cael eu diwallu'n effeithiol trwy amrediad o hyfforddiant pwrpasol sy'n cael ei rannu gan bartneriaid ac asiantaethau arbenigol, er enghraifft hyfforddiant hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol gan y Mudiad Meithrin.

Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer hunanwerthuso sy'n seiliedig ar lles a profiadau'r plant. Maent yn cywain barn rhanddeiliaid fel rhieni yn rheolaidd, gan grynhoi eu hymatebion a'u rhannu gyda hwy. Maent yn defnyddio'r gweithdrefnau hyn yn llwyddiannus i adnabod cryfderau ac i flaenoriaethu agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach. Er enghraifft, yn dilyn yr arolygiad o ansawdd y gofal eleni mae'r ardal ddarllen wedi cael ei symud fel bo'n cynnig ardal dawel a chyfforddus i blant ymlacio yno ac mae arweinwyr wedi buddsoddi mewn offer llythrennedd corfforol.

Mae gan arweinwyr drefniadau trylwyr ar gyfer recriwtio ymarferwyr. Mae gan pob un swydd ddisgrifiadau clir ac maent yn gweithredu ar eu rolau yn gydwybodol. Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yr ymarferwyr yn drwyadl. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr fyfyrio ar eu harfer, i gynnig targedau ar gyfer gwella, ac mae trefniadau ffurfiol i arsylwi ar yr ymarferwyr wrth eu gwaith. Mae hyn yn amlinellu ansawdd yr addysgu a magu hyder ymysg staff ac yn nodi anweddau sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cyd weithio'n llwyddiannus gydag amrediad effeithiol o bartneriaid ac asiantaethau sy'n darparu cefnogaeth a hyfforddiant mewn amrywiol faesydd yn ôl y galw. Mae'r holl staff wedi sefydlu perthynas adeiladol a chefnogol iawn gyda'r rhieni drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda'r rhieni a drwy creu tudalen ar gyfer u rhieni yr gyfryngau cymdeithasol. Mae rhieni yn yn gwerthfawrogi gwaith lleoliad yn fawr ac yn teimlo fod eu plant yn blodeuo o fewn awyrgylch hapus a chynhwysol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓒ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/07/2019